Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Brexit ac addoedi Senedd y DU
## Adroddiad Monitro Brexit

4 Medi 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Brexit ac addoedi Senedd y DU
## Adroddiad Monitro Brexit

4 Medi 2019

**Awduron:**
Sara Moran a Gareth Thomas

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .......... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau .......... 1

Prif Weinidog Newydd a'r Cytundeb Ymadael .......... 3

Addoedi'r Senedd .......... 5

Ymateb gweinyddiaethau datganoledig i addoedi'r Senedd .......... 7

Camau a gymerwyd gan y Gwrthbleidiau .......... 7

Etholiad Cyffredinol .......... 9

**Brexit ac addoedi Senedd y DU:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Yn dilyn cais ffurfiol gan y Prif Weinidog, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael ei alw yn ôl er mwyn trafod y datblygiadau diweddaraf ar Brexit **ddydd Iau 5 Medi.** Lluniwyd y briff hwn gan fod y Cynulliad yn cael ei alw'n ôl ac er mwyn helpu Aelodau **yn y ddadl gysylltiedig**. Mae'n darparu:

- crynodeb o'r prif ddatblygiadau diweddaraf yn ymwneud â'r DU yn ymadael â'r UE;
- rhestr o'r dyddiadau arwyddocaol cyn y disgwylir i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Hydref;

Bydd Adroddiad Monitro Brexit llawn yn cael ei gyhoeddi ar 18 Medi.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Yn ei araith gyntaf i Dŷ'r Cyffredin fel Prif Weinidog ar 25 Gorffennaf, cyhoeddodd Boris Johnson ei fwriad i ailnegodi'r **Cytundeb Ymadael** ar delerau ymadawiad y DU o'r UE a gafodd ei negodi yn flaenorol rhwng yr EU a chyn-Brif Weinidog y DU, Theresa May. Ailadroddodd ei wrthwynebiad i'r cynllun 'backstop' ar gyfer Ynys Iwerddon a fyddai'n dod i rym pe byddai'r DU a'r UE yn methu â dod i gytundeb ar eu perthynas yn y dyfodol erbyn mis Rhagfyr 2020.

Mae **Cyngor yr UE wedi datgan** nad yw'n barod i ailnegodi y Cytundeb Ymadael, ond y byddai'n agored i gynigion eraill ar gyfer ynys Iwerddon gan Lywodraeth y DU sy'n gyson ag ef, gan gynnwys gwneud newidiadau i'r **Datganiad Gwleidyddol** sy'n cyd-fynd ag ef.

Ar 28 Awst, gwnaeth y Prif Weinidog gais i Senedd y DU gael ei haddoedi. Gwnaed y cais i Ei Mawrhydi y Frenhines, a chafodd ei **gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor** a gynhaliwyd yn Balmoral yr un diwrnod. Bydd yr addoediad yn dechrau rhwng 9-12 Medi ac yn para tan 14 Hydref.

Y diwrnod blaenorol ar 27 Awst, arwyddodd y Gwrthbleidiau **Ddatganiad Church House** a oedd yn addo cydweithio er mwyn gwneud 'beth bynnag fo'i angen i sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed'. Maent yn bwriadu cymryd mesurau i sicrhau bod Brexit heb gytundeb yn cael ei osgoi ar 31 Hydref.

Ar 28 Awst, **cyhoeddodd y Prif Weinidog lythyr at ASau** yn amlinellu amserlen ar gyfer yr amser sydd ar ôl tan 31 Hydref pan ddisgwylir i'r DU adael yr UE. Mae'r amserlen hon, yn ogystal â dyddiadau arwyddocaol eraill sydd ar y gweill, sy'n gywir ar adeg cyhoeddi, wedi'u rhestru isod:

### Medi

Dydd Mawrth 3: ASau yn dychwelyd i **Dŷ'r Cyffredin**; Her gyfreithiol i'r addoediad (gwrandawiad Llys y Sesiwn yr Alban)

Dydd Mercher 4: Bydd y Canghellor Sajid Javid yn cyhoeddi casgliadau **Cylch Gwariant 2020-21** mewn datganiad i'r Senedd; ASau i bleidleisio ar **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 6) 2019** ar gynnig y Prif Weinidog i **gynnal etholiad cyffredinol cynnar**

Dydd Iau 5: Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod addoediad Senedd y DU: Her gyfreithiol i addoediad (gwrandawiad yr Uchel Lys)

Rhwng dydd Llun 9 a dydd Iau 12 (y tebygrwydd yw dydd Mawrth 10 Medi): Senedd i gael ei haddoedi tan 14 Hydref

Drwy gydol mis Medi: mae negodwyr y DU a'r UE wedi **cytuno i gyfarfod ddwywaith yr wythnos**

### Hydref

Dydd Llun 14: Agoriad Swyddogol y Senedd Posibl, gan gynnwys Araith y Frenhines

Dydd Llun 14 - Dydd Iau 17: Etholiad Cyffredinol Posibl

Dydd Iau 17 - dydd Gwener 18: Uwch-gynhadledd Cyngor yr UE

Dydd Llun 21 - dydd Mawrth 22: Cyfres bosibl o bleidleisiau yn y Senedd ar Araith y Frenhines; gallai ASau hefyd bleidleisio ar gytundeb ar Brexit, os cytunir ar un rhwng y DU a'r UE yn Uwch-gynhadledd Cyngor yr UE. Os bydd y Senedd yn pleidleisio i gymeradwyo cytundeb, bydd angen pasio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) rhwng y dyddiad hwn a 31 Hydref er mwyn dod ag ef i rym

Dydd Iau 31 Hydref: disgwyl i'r DU adael yr UE



**Brexit ac addoedi Senedd y DU:** Adroddiad Monitro Brexit

## Prif Weinidog Newydd a'r Cytundeb Ymadael

Yn **ei araith gyntaf fel Prif Weinidog ar 25 Gorffennaf**, datganodd Boris Johnson ei fwriad i ailnegodi'r Cytundeb Ymadael heb y backstop:

> If an agreement is to be reached, it must be clearly understood that the way to the deal goes by way of the abolition of the backstop. For our part, we are ready to negotiate, in good faith, an alternative, with provisions to ensure that the Irish border issues are dealt with where they should always have been: in the negotiations on the future agreement between the UK and the EU.

Dywedodd **yn ddiweddarach** yn Nhŷ'r Cyffredin:

> I want to make one point on which I think we are all agreed: under no circumstances will there be physical infrastructure or checks at the Northern Irish border. That is absolutely unthinkable.

Mewn cynhadledd i'r wasg ar y cyd â Changhellor yr Almaen Angela Merkel ar 21 Awst, adroddodd y BBC fod y **Prif Weinidog wedi cytuno** bod y cyfrifoldeb ar y DU i ddarparu datrysiadau ymarferol amgen i backstop Iwerddon a'i fod yn "fwy na hapus" â'r amserlen 30 diwrnod a awgrymwyd gan Ganghellor yr Almaen i wneud hynny.

Mewn **llythyr at ASau** ar 28 Awst, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fwriad i addoedi'r Senedd er mwyn cyflwyno 'agenda deddfwriaethol newydd, beiddgar ac uchelgeisiol i adfywio ein gwlad ar ôl Brexit':

> A central feature of the legislative programme will be the Government's number one legislative priority, if a new deal is forthcoming at EU Council, to introduce a Withdrawal Agreement Bill and move at pace to secure its passage before 31 October.

Esboniodd hefyd yn y llythyr:

> Parliament will have the opportunity to debate the Government's overall programme, and approach to Brexit in the run up to EU Council, and then vote on this on 21 and 22 October, once we know the outcome of the Council.

### Ymateb yr UE

Ar 25 Gorffennaf, dywedodd **Politico** fod Prif Negodwr Brexit, Michel Barnier, mewn nodyn i arweinwyr yr UE, wedi eu hannog i beidio â chynhyrfu a galwodd am ymateb unedig i'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel araith gyntaf eithaf ymosodol i Dŷ'r Cyffredin fel y Prif Weinidog. Pwysleisiodd nad yw'r backstop yn rhan i'w negodi mewn unrhyw Gytundeb Ymadael a dywedodd fod safbwynt y Prif Weinidog i gael gwared arno yn annerbyniol.

Siaradodd Prif Weinidog y DU a Llywydd Comisiwn yr UE, Jean-Claude Juncker, dros y ffôn ar 27 Awst. **Fe wnaeth llefarydd ar ran Llywydd y Comisiwn** grynhoi'r sgwrs:

> President Juncker repeated his willingness to work constructively with Prime Minister Johnson and to look at any concrete proposals he may have, as long as they are compatible with the Withdrawal Agreement. President Juncker underlined that the EU27's support for Ireland is steadfast and that the EU will continue to be very attentive to Ireland's interests.
>
> Finally, he recalled that while the EU is fully prepared for a 'no-deal' scenario, it will do everything it can to avoid such a situation. A 'no-deal' scenario will only ever be the UK's decision, not the EU's.

Cyhoeddwyd **datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU** yn dilyn y sgwrs, a oedd yn nodi:

> The Prime Minister set out that the UK will be leaving the EU on October 31, whatever the circumstances, and that we absolutely want to do so with a deal. The PM was also clear however that unless the Withdrawal Agreement is reopened and the backstop abolished there is no prospect of that deal.
>
> The Prime Minister reiterated his commitment to Belfast/Good Friday Agreement in all its parts. He underlined the importance of ensuring the peace, prosperity and security of Northern Ireland and said that we will never place infrastructure, checks, or controls at the border.

Roedd Arlywydd Jean-Claude Juncker **wedi dweud yn y gorffennol** wrth y Prif Weinidog fod yr UE yn barod i ychwanegu at y Datganiad Gwleidyddol a dadansoddi unrhyw syniadau a gyflwynir gan y Deyrnas Unedig, ar yr amod eu bod yn gyson â'r Cytundeb Ymadael yn ystod eu sgwrs gyntaf ar 25 Gorffennaf.

Ar 1 Medi, **nododd** Michel Barnier nad oedd yn optimistaidd ynghylch osgoi dim cytundeb ac y byddai angen i'r DU a'r UE ddatrys yr un problemau ar ôl 31 Hydref waeth beth fo'r canlyniadau. Mewn erthygl yn y Sunday Telegraph, dywedodd:

> On the EU side, we had intense discussions with EU member states on the need to guarantee the integrity of the EU's single market, while keeping that border fully open.
>
> In this sense, the backstop is the maximum amount of flexibility that the EU can offer to a non-member state.
>
> The EU is ready to explore all avenues that the UK government may present and that are compatible with the withdrawal agreement.





### Ymateb Cymru/yr Alban

Ar 25 Gorffennaf, mewn **llythyr ar y cyd**, a oedd hefyd yn galw am ail refferendwm, galwodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar Brif Weinidog y DU i ddiystyru Brexit heb gytundeb, gan ddweud:

> Byddai'n gwbl afresymol i Lywodraeth y DU ystyried anhrefn llwyr ymadael heb gytundeb, ac rydym yn pwyso arnoch i ymwrthod â'r posibilrwydd hwn mewn ffordd bendant a diamwys cyn gynted â phosib.

Ar 1 Medi, **cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, ei fod yn cefnogi** her gyfreithiol Gina Miller i addoedi Senedd y DU (gweler adran 1.3 isod), gan nodi:

> Mae gan Aelodau'r Cynulliad yma yng Nghymru rôl hanfodol hefyd o ran cynghori'r Senedd ar sut y bydd Brexit heb gytundeb yn effeithio ar elfennau craidd yr economi a chymunedau yng Nghymru. Ni ellir gwneud hyn os yw'r Prif Weinidog wedi torri'r llinellau cyfathrebu.

Dywedodd hefyd ei fod yn ymyrryd yn y trafodion cyfreithiol yn yr Uchel Lys a'i fod wedi cyflwyno cyflwyniadau sy'n 'angenrheidiol, yn briodol, ac yn gymesur i amddiffyn buddiannau Cymru o ran sicrhau bod y Senedd yn cael eistedd'.

## Addoedi'r Senedd

Ar 28 Awst, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r Senedd yn cael ei haddoedi yn dilyn cais a wnaed i Ei Mawrhydi y Frenhines. Mewn **llythyr at ASau**, eglurodd y Prif Weinidog y byddai'r addoediad yn digwydd o'r ail wythnos eistedd yn y Senedd (wythnos yn dechrau 9 Medi) tan 14 Hydref.

Mae tair her gyfreithiol wedi'u cychwyn yn erbyn penderfyniad y Prif Weinidog:

1. Cafodd gwrandawiad yn **Llys y Sesiwn** yr Alban ei ddwyn ymlaen i 3 Medi **yn dilyn dyfarniad** ar 30 Awst. Mae'r achos, sy'n cael ei arwain gan 75 o seneddwyr a'i gefnogi gan y **Good Law Project**, yn herio cyfreithlondeb a natur gyfansoddiadol cais y Prif Weinidog i addoedi'r Senedd. Ar 4 Medi, **gwrthododd y Llys** yr her gyfreithiol. Bydd y grŵp yn apelio yn erbyn y penderfyniad.

2. Bydd yr **ail achos** yn cael ei glywed yn **Uchel Lys Cymru a Lloegr** ar 5 Medi. Cafodd ei gyflwyno gan yr ymgyrchydd Gina Miller. Mae **Llywodraeth Cymru**, cyn-**Brif Weinidog, Syr John Major,** a Dirprwy Arweinydd y Blaid Lafur, Tom Watson, oll wedi gofyn am ganiatâd i ymyrryd yn y trafodion cyfreithiol. Ar adeg cyhoeddi, roedd Syr John Major **wedi cael caniatâd** i ymyrryd. Mae'r achos yn herio'r cyngor a roddwyd gan y Prif Weinidog i'r Frenhines yn ystod ei gais i addoedi'r Senedd drwy adolygiad barnwrol.
3. Mae'r trydydd achos yn ymwneud â chais i'r **Uchel Lys yn Belfast** i ddyfarnu a yw addoediad yn torri Cytundeb Gwener y Groglith/Belfast.

Yn dilyn sïon ym mis Gorffennaf y gallai'r Prif Weinidog addoedi'r Senedd er mwyn gorfodi Brexit heb gytundeb, cafodd **gwelliannau trawsbleidiol** eu cyflwyno i Ddeddf Gogledd Iwerddon (Ffurfio Gweithrediaeth etc) 2019. Mae'r Ddeddf, a gafodd **Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf**, yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i adrodd i'r Senedd ar gynnydd a wneir tuag at ffurfio Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon. Nod y gwelliannau trawsbleidiol, a gafodd eu derbyn, oedd sicrhau bod y Senedd yn parhau i drafod yn rheolaidd adroddiadau Llywodraeth y DU ar y ddeddfwriaeth. Dywed Adran 3(1) o'r Ddeddf fod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol:

- Ar 4 Medi 2019 neu cyn hynny, gyflwyno adroddiad yn nodi pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at ffurfio Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon; a
- Gwneud adroddiad pellach ar 9 Hydref 2019 neu cyn hynny ac o leiaf bob 14 diwrnod calendr ar ôl hynny.

Ar 30 Awst, **dywedodd y Prif Weinidog wrth y BBC:**

> The weird thing is, the more the parliamentarians try to block the no deal Brexit, the more likely it is that we'll end up in that situation so the best thing now is for us to get on and make our points to our European friends with clarity and with vigour, and that's what we're doing.

Cafodd y safbwynt hwn ei ailadrodd mewn cyfweliad gyda'r **Sunday Times** ar 1 Medi.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler briff Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **'Prorogation of Parliament'.**





## Ymateb gweinyddiaethau datganoledig i addoedi'r Senedd

Ar 28 Awst, wrth ymateb i'r cyhoeddiad o addoediad, ysgrifennodd **Prif Weinidog Cymru neges drydar:**

> Fe ymladdodd Boris Johnson ymgyrch refferendwm i roi grym yn ôl yn nwylo'r Senedd. Nawr mae'n gofyn i'r Frenhines gau'r drws ar ein democratiaeth. Mae honiadau'r ymgyrch Ymadael yn dadfeilio. Mae'n bryd rhoi'r mater yn ôl i'r bobl.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit **ar 28 Awst** fod atal Senedd y DU dros dro 'yn gam cwbl sinigaidd ac annemocrataidd yn ei hanfod, sy'n ymgais i rwystro  rhag trafod a phenderfynu ar gwestiwn gwleidyddol pwysicaf ein hoes'.

Hefyd ar 28 Awst, **gofynnodd Prif Weinidog Cymru** i'r Llywydd ailgynnull y Cynulliad i ganiatáu iddo 'drafod yr argyfwng cyfansoddiadol sydd bellach yn wynebu Cymru a'r Deyrnas Unedig'. Derbyniodd y Llywydd y cais hwn, **gan nodi:**

> Rydym ar dir cyfansoddiadol digynsail ac, am fod Senedd y DU yn ailymgynnull yr wythnos nesaf, mae'n fater o egwyddor seneddol y dylai Aelodau'r Cynulliad hefyd gael y cyfle i siarad ar ran eu hetholwyr ar bwnc o'r fath arwyddocâd.

Hefyd, mynegodd Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, feirniadaeth o'r penderfyniad i addoedi'r Senedd, gan ddweud **ar 28 Awst** nad yw'n ddemocrataidd, a'i fod yn ymwneud â chyfyngu ar unrhyw allu sydd gan y Senedd i atal Brexit heb gytundeb.

Mae **dyddiadau toriadau** Senedd yr Alban yn wahanol i'r Cynulliad, gyda thoriad yr haf yn rhedeg o 30 Mehefin i 1 Medi yn yr Alban, o gymharu â 22 Gorffennaf i 15 Medi yn yr Alban.  Dechreuodd Senedd yr Alban ei dymor yr hydref ar 2 Medi.

## Camau a gymerwyd gan y Gwrthbleidiau

### Datganiad Church House

Ar 27 Awst, cyfarfu arweinwyr y Gwrthbleidiau i drafod camau gyda'r nod o atal Brexit heb gytundeb, yn dilyn **llythyr gan Jeremy Corbyn** ar 21 Awst.  Ar ôl y cyfarfod, cyhoeddodd arweinwyr y Gwrthbleidiau **ddatganiad ar y cyd.**  Roedd yn amlinellu y byddent yn cydweithio i chwilio am ffyrdd ymarferol i atal Brexit heb gytundeb drwy basio deddfwriaeth neu drwy bleidlais ar ddiffyg hyder.

Hefyd ar 27 Awst, arwyddodd dros 200 o ASau **Ddatganiad Church House** yn gwrthwynebu Brexit heb gytundeb.  Mae Datganiad Church House yn nodi:

> Shutting down Parliament would be an undemocratic outrage at such a crucial moment for our country, and a historic constitutional crisis.
>
> Any attempt to prevent Parliament sitting, to force through a no deal Brexit, will be met by strong and widespread democratic resistance.
>
> We pledge to work together across parties and across our nations to do whatever is necessary to ensure that the people's voice is able to be heard.

### Yn Senedd y DU

Pleidleisiodd ASau i gymryd rheolaeth dros yr agenda seneddol ddydd Mawrth 2 Medi **o 328 i 301** gan ddefnyddio **cynnig a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 24.** Mae'r bleidlais yn galluogi deddfwriaeth i gael ei chyflwyno a allai ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU osgoi dim cytundeb. Disgwylir clywed pob cam o'r ddeddfwriaeth drawsbleidiol ddydd Mercher 4 Medi

Mae'r Bil, sef **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Rhif 6) 2019** yn rhoi cyfle:

- I Lywodraeth y DU ddod i gytundeb â'r UE yng nghyfarfod Cyngor yr UE ar 17-18 Hydref, neu;
- I gael cydsyniad Senedd y DU os nad yw'n dod i gytundeb.
- Os na fodlonir un o'r amodau, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog anfon llythyr ar 19 Hydref i Gyngor yr UE yn gofyn am estyniad pellach i gyfnod Erthygl 50 hyd at 31 Ionawr 2020.
- Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Prif Weinidog i dderbyn ar unwaith y cynnig o estyniad gan Gyngor yr UE, gan gynnwys derbyn dyddiad arall a awgrymir gan yr UE. Mae'n rhaid derbyn dyddiad arall o fewn dau ddiwrnod oni bai ei fod yn cael ei wrthod gan Dŷ'r Cyffredin.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler erthygl Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **ar y Bil.**



**Brexit ac addoedi Senedd y DU:** Adroddiad Monitro Brexit

## Etholiad Cyffredinol

Yn dilyn canlyniadau'r bleidlais ddydd Mawrth 3 Medi, **dywedodd y Prif Weinidog** y byddai'n rhaid i bobl y wlad ddewis pwy fydd yn mynd i gyfarfod nesaf Cyngor yr UE ar 17 Hydref i gynrychioli'r DU:

> If MPs vote tomorrow to stop negotiations and to compel another pointless delay to Brexit, potentially for years, then that would be the only way to resolve this and I can confirm that we are tonight tabling a motion under the Fixed Term Parliaments Act.

Mae'r **cynnig** a gyflwynwyd gan y Prif Weinidog, yn nodi:

> That there shall be an early parliamentary general election.

Mae **Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011** yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r Prif Weinidog gael cefnogaeth dwy ran o dair o ASau er mwyn i'r cynnig gael ei basio.

